

**Dyddiad cyhoeddi:** 10 Mai 2021

### **Cais Rhyddid Gwybodaeth**

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

### **Atebion i'ch Cwestiynau**

**Cadarnhewch os gwelwch yn dda pa gynlluniau sydd gan TrC ar gyfer yr iard maen nhw'n ei defnyddio y tu ôl i 2 Roberts Villas, Heol Tŷ Mawr, Gogledd Llandaf.**

Cafodd yr iard hon ei throsglwyddo i berchnogaeth TrC fel rhan o drosglwyddo asedau Llinellau Craidd y Cymoedd (CVL) National Rail ym mis Mawrth 2020. Bydd yr iard yn hwyluso trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd, sy'n cynnwys trydaneiddio'r rheilffordd. Mae trydaneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd yn brosiect cynaliadwyedd gwerthfawr. Bydd trydaneiddio yn lleihau'r allyriadau o'r rheilffordd ar Linellau Craidd y Cymoedd 100% erbyn 2023. Bydd y cynnydd yn nifer y trenau yn galluogi pobl i deithio'n fwy cynaliadwy ac yn annog newid moddol o geir preifat. Ar hyn o bryd llygredd aer yw'r pedwerydd cyfrannwr mwyaf at gollu bioamrywiaeth; nid yw amonia o geir yn cael ei reoleiddio ac mae'n effeithio'n sylweddol ar gynefinoedd lleol. Mae'r prosiect hwn yn cyflawni nodau Cymru ffyniannus, gydnerth, mwy cyfartal, iachach a chyfrifol ar lefel fyd-eang. Bydd yn galluogi pobl i gael swyddi ac amser hamdden heb fod angen car, bydd yn annog teithio llesol, a bydd yn cysylltu cymunedau'n well. Bydd yn diogelu'r amgylchedd drwy ei reoli'n well, bydd yn arwain at lai o lygredd a bydd yn lleihau allyriadau sy'n effeithio ar gynhesu byd-eang yn sylweddol. Bydd y gwelliannau rydym yn eu gwneud yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i gyrraedd targedau datgarboneiddio uchelgeisiol Cymru, yn ogystal â gwella iechyd corfforol a meddyliol y bobl sy'n byw yma. Rydym yn rhwymedig i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu rhwydwaith trafniadaeth diogel, integredig, fforddiadwy a chynaliadwy o safon uchel y mae pobl Cymru yn falch ohono.

### **A fydd yr iard hon yn barhaol?**

Bydd, mae'r iard hon yn barhaol.

### **Pa ganllawiau a roddwyd i staff wrth weithio dros nos yn yr iard (h.y. pa waith sy'n dderbyniol i'w wneud dros nos a lefel y sŵn a ganiateir)?**

Bydd briff yn cael ei gynhyrchu gan gontractwr TrC sy'n gyfrifol am y safle i amlinellu'r gofynion ar gyfer gweithio dros nos. Mae'n ofynnol i bob contractwr gysylltu â Swyddog Iechyd yr Amgylchedd yr Awdurdod Lleol i ganfod a oes unrhyw ofynion ar gyfer rheoli sŵn ac a oes gofyniad i gyflwyno cais Adran 61 dan Ddeddf Rheoli Llygredd 1974. Os bydd angen, bydd y cais hwn yn cael ei adolygu a'i gymeradwyo gan Brif Reolwr Amgylcheddol Amey Infrastructure Wales cyn iddo gael ei gyflwyno'n ffurfiol i'r Awdurdod Lleol i'w ystyried (Amey Infrastructure Wales yw Rheolwr Seilwaith penodedig TrC). Ar ôl cymeradwyo, mae'r

contractwr yn derbyn cyfrifoldeb llawn, ac atebolrwydd, wrth reoli a gweithredu amodau Adran 61 am gyfnod y gwaith yn ei gyfanrwydd.

**A fydd yr iard hon yn cael ei defnyddio ar gyfer gwaith sy'n cael ei wneud ar drydaneiddio'r rheilffyrdd?**

Bydd, bydd yr iard hon yn cael ei defnyddio ar gyfer gwaith sy'n cael ei wneud ar drydaneiddio'r rheilffyrdd.

**A gafodd yr iard ei chreu oherwydd bod Network Rail yn gwerthu tir arall?**

Fel yr amlinellwyd yn ein hateb i gwestiwn 1, trosglwyddwyd yr iard i TrC fel rhan o drosglwyddo asedau Llinellau Craidd y Cymoedd National Rail. Ni allwn roi cyngor ar bryniant a defnydd National Rail o'r iard hon cyn trosglwyddo'r ased ym mis Mawrth 2020.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i chi.

Cofion cynnes,

**Trafnidiaeth Cymru**

**Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu [freedomofinformation@tfw.wales](mailto:freedomofinformation@tfw.wales). Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr hwn. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: <https://ico.org.uk/make-a-complaint/>

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".